Apêl De Affrica

Cyfarwyddiadau i'r eglwysi ar gyfer delio â rhoddion gan y gynulleidfa

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn ofalus, os gwelwch yn dda, er mwyn ein galluogi ni i adhawlio'r dreth oddi wrth y llywodraeth. Gall hyn ychwanegu bron i 30% at werth rhoddion aelodau eich cynulleidfa, heb ddim cost iddynt hwy.

Yn dilyn eich casgliad

- agorwch bob amlen er mwyn gweld os yw'r swm sydd ar yr amlen gyfuwch neu'n llai na'r arian sydd yn yr amlen
- os yw'r swm ar yr amlen yn fwy na gwerth y rhodd tu fewn, cywirwch y swm ar yr amlen i fod yr un peth a gwerth y rhodd
- unwaith mae'r arian wedi ei gyfrif, talwch y cyfanswm i mewn i gyfrif banc eich eglwys/mudiad ac ysgrifennwch siec am y swm yma i 'Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – Apêl Cymorth Cristnogol'.

Llenwch y ffurflen isod, ei lungopïo a'i anfon gyda'ch siec, ynghyd â sieciau unigol gan aelodau eich cynulleidfa sy'n daladwy i 'Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – Apêl Cymorth Cristnogol' ac amlenni Rhodd Cymorth atom ni yn Tŷ John Penri (manylion isod). Mae Cyllid a Thollau EM yn mynnu fod yr amlenni a'r sieciau yn cael eu hanfon gyda'i gilydd.

Diolch yn fawr – gwerthfawrogwn eich help. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe, SA7 0AJ (e-bost: undeb@annibynwyr.org a rhif ffôn: 01792 795888)

Ffurflen Rhoddion

Gwnewch lungopi o'r ffurflen hon a'i dychwelyd ynghyd â siec (taladwy i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – Apêl Cymorth Cristnogol) am gyfanswm yr arian a dderbyniwyd, unrhyw sieciau i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – Apêl Cymorth Cristnogol gan unigolion ac amlenni Rhodd Cymorth wedi eu llenwi.

Rwy'n amgáu ein cyfraniad i Apêl De Affrica.

Swm a godwyd £ .....

Enw (a thref) yr eglwys/mudiad

.....

Eich enw .....

Eich cyfeiriad .....

.....

Eich rhif ffôn .....

Adborth

Gwerthfawrogir eich sylwadau ar yr apêl yma. Gellir eu hysgrifennu ar gefn y llungopi o'r ffurflen rhoddion. Byddai'n help mawr i ni wybod eich barn am:

- gyhoeddusrwydd (pryd a sut glywsoch chi gyntaf am yr apêl – oedd yn ddigon cynnar? Beth yw eich barn am y deunydd argraffedig?)
- y bwriad yw gwneud apêl arall yn y dyfodol – beth ddylid ei gadw a beth fyddech yn ei newid?
- weinyddu (e.e. anfon allan deunydd yr apêl, delio â rhoddion, anfon derbyniadau)

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525